# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 2

CYMORTH AR GYFER AMAETHYDDIAETH ETC.

## PENNOD 1

PŴER GWEINIDOGION CYMRU I DDARPARU CYMORTH

### 10 Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am gymorth

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, chyhoeddi gwybodaeth benodedig am gymorth sy'n cael ei ddarparu neu sydd wedi ei ddarparu.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) osod gofyniad ar unrhyw berson (gan gynnwys ar Weinidogion Cymru).

(3) Mae'r wybodaeth y caniateir ei phennu yn cynnwys gwybodaeth am—

- (a) derbynnydd unrhyw gymorth a ddarperir;
- (b) swm unrhyw gymorth a ddarperir;
- (c) dibenion unrhyw gymorth a ddarperir.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn rheoliadau o dan is-adran (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 mewn grym ar 17.10.2023, gweler **a. 56(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 10.